

RHYBUDD O GYNNIG

Yn unol â pharagraffau 10.5.1–10.5.4 o Reolau Dull Gweithredu'r Cyngor i drafod y Rhybudd o Gynnig a ganlyn.

Rheswm y Cynigydd dros y Cynnig i'w ystyried fel mater brys:

Yn y cyfarfod hwn o'r Cyngor Llawn, sef y cyfle cyntaf i godi'r mater hwn, yn dilyn cyhoeddiad am y setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru, byddwn i'n ddiolchgar pe baech chi'n ystyried gosod y Cynnig ar sail na fyddai'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor, fel sydd wedi'i amserlenni, yn rhoi'r cyfle i gyflwyno'r sylwadau hyn, gan y byddai'r Canghellor wedi cyhoeddi Datganiad yr Hydref yn barod.

Rhybudd o Gynnig wedi'i gyflwyno yn enwau:-

Y Cynghorwyr A.Morgan, M.Webber, L.M.Adams, R.Bevan, H.Boggis, J.Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A.Calvert, G. Caple, A.Crimmings, A. Davies-Jones, L. De Vet, J. Elliott, S.Evans, M Fidler Jones, M.Forey, A.S.Fox, E.George, M.Griffiths, J. Harries, G.Holmes, G.Hopkins, G.Hughes, G.Jones, R.Lewis, W.Lewis, C.Leyshon, S.Morgans, M.A. Norris, D.Owen-Jones, S.Pickering, S.Powderhill, S.Powell, S.Rees, (Mrs.)A.Roberts, J.Rosser, R.Smith, G.Stacey, M.Tegg, G.Thomas, W. Treeby, R.K.Turner, D.Williams, T.Williams, C.J.Willis, R.Yeo.

“Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Ganghellor y Trysorlys i ddod â pholisi Llywodraeth San Steffan o gynt ariannol i ben yn ei Gyllideb, i'w gyflwyno ger bron Senedd San Steffan ar 22 Tachwedd.

Mae'r Cyngor hwn o'r farn, ar ôl saith mlynedd o gynt, mai 'digon yw digon' a does dim modd i'r sector cyhoeddus ar draws y Deyrnas Unedig oddef y gostyngiadau sylweddol blwyddyn ar ôl blwyddyn yn ei gyllid. Mae cyllid Cymru wedi gostwng 7% mewn termau real ers 2010, gyfwerth â swm syfrdanol o £1.2biliwn

Mae'n bryd i Lywodraeth y DU gydnabod gwerth gwasanaethau cyhoeddus trwy ryddhau'r arian sydd ei angen i fodloni'r galw cynyddol am wasanaethau.

Mae'r Cyngor hwn yn cytuno i:

- Ymgyrchu dros yr wythnosau nesaf i gyfleu'r angen am ddod â'r cyni ariannol i ben.
- Parhau i fod yn agored am raddfa'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y tymor byr a chanolig os na ddaw'r cyni i ben, a'r newid y gallai hyn ei achosi i'n cymunedau a gwasanaethau lleol.
- Gofyn bod Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ofyn am ddod â'r cyni i ben ac am ariannu teg i'r sector cyhoeddus ar draws y DU.”